



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LEFEL 3 TYSTYSGRIF A DIPLOMA MEWN
TROSEDDEG**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynnyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1 Newid Ymwybyddiaeth o Drosedd	1
Uned 2 Damcaniaethau Troseddegol	7
Uned 3 O Leoliad y Drosedd i'r Llys	12
Uned 4 Trosedd a Chosb	16

CBAC LEFEL 3 TROSEDDEG GYMHWYSOL

Tystysgrif Lefel 3

Haf 2019

UNED 1: NEWID YMWHYBYDDIAETH O DROSEDD

Sylwadau Cyffredinol

Unwaith eto eleni, yn enwedig gan fod cynifer o ganolfannau'n cwblhau'r unedau hyn am y tro cyntaf, roedd yn braf iawn gweld gwaith o ansawdd mor uchel yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'w safoni.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i atgoffa canolfannau o ofynion newydd Uned 1 o fis Medi 2019 ymlaen. Sicrhewch fod pob ymgeisydd sy'n cwblhau uned 1 i'w dyfarnu yn 2020 yn defnyddio'r briffiau a'r tasgau newydd ar gyfer Uned 1 a gyhoeddir ar wefan ddiogel CBAC. Mae canllawiau llawn ar weinyddu'r tasgau asesiad dan reolaeth ar gael o fewn y dogfennau briff ac yn ein dogfen cwestiynau cyffredin wedi'i diweddaru'n llawn sydd ar gael ar dudalennau cartref Troseddeg CBAC ac Eduqas.

Mae'r sylwadau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y briff a'r dasg hen arddull, ac ni ddylid cymryd eu bod yr un mor berthnasol i bob canolfan. Nid ydynt ychwaith i fod i fychanu perfformiad cyffredinol dda llawer o ymgeiswyr. I'r mwyafrif, dangosodd yr asesiadau enghreifftiol lefel uchel o ddealltwriaeth ac ymgysylltiad gan yr ymgeiswyr. Roedd yn galonogol gweld bod yr ymgeiswyr, gan fwyaf, wedi paratoi'n dda ar gyfer yr asesiad dan reolaeth. Gwelwyd tystiolaeth o arfer da mewn samplau o ganolfannau a oedd wedi rhoi sylw trylwyr i'r meini prawf asesu drwy archwilio adrannau cynnwys ac ymhelaethu'r fanyleb. Dylai rhai canolfannau ddatblygu lefel eu hymgysylltu â'r fanyleb ar gyfer cyfresi'r dyfodol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Dylai canolfannau roi sylw uniongyrchol i golofnau cynnwys a hefyd ymhelaethu ar gyfer pob maen prawf asesu a amlinellir yn Uned 1. Mewn rhai achosion, nid oedd ymgeiswyr yn rhoi sylw llawn i'r meini prawf ac ni dderbyniwyd penderfyniadau asesu'r canolfannau.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr allu rhagorol i ddefnyddio adrannau perthnasol o friff yr aseiniad er mwyn gwella'r drafodaeth. Dylai pob canolfan annog defnyddio briff yr aseiniad pan fo'n berthnasol. Mae'r briff aseiniad wedi'i lunio i gynorthwyo, ac ni ddylai fod yn unig ffocws yr asesiad dan reolaeth. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr yn dibynnu'n llwyr ar y briff aseiniad ac yn methu cyfleoedd i ymgysylltu â'r meini prawf asesu ac â deunydd enghreifftiol ychwanegol. Roedd hyn yn aml yn cyfyngu ar farciau ac yn digwydd yn aml pan oedd yr ymgeiswyr yn defnyddio'r briff aseiniad Brian Williams. Yn yr achosion hyn, dim ond troseddau a drafodwyd yn y briff Brian Williams a gafodd sylw gan yr ymgeiswyr, gan olygu nad oeddent yn ymgysylltu'n llawn â'r fanyleb.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y samplau i'w safoni'n drefnus. O bryd i'w gilydd, cafodd y gwaith ei styffylu'n anghywir neu ei atodi gyda chlipiau papur heb eu cysylltu'n iawn. Argymhellir tagiau'r trysorlys yn fawr er mwyn osgoi cymysgu gwaith sampl. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod dogfennau asesu'n cael eu cwblhau'n briodol. Roedd yr enghreifftiau gorau'n cynnwys sylwadau manwl ar y daflen cofnodi marciau i gyfiawnhau'r band marciau a ddyfarnwyd ar gyfer pob MPA. Roedd y canolfannau hynny'n tynnu sylw at y band marc perthnasol, yn mewnosod y marc ac yn amlinellu sylwadau â ffocws i ategu'r perfformiad ar yr holl daflenni cofnodi marciau a gyflwynwyd. Mae'n braf gweld aseswyr yn ymgysylltu â therminoleg allweddol a geir yn y fanyleb ac ar y daflen cofnodi marciau. Roedd arfer gorau i'w weld mewn canolfannau lle roedd aseswyr yn rhoi cyfiawnhad cryno pam roedd yr ymgeisydd wedi cyflawni perfformiad ar lefel uchel neu fel arall, rhesymau pam na allai'r ymgeisydd gyflawni perfformiad lefel uchel gan restru pwyntiau i'w gwella. Roedd arfer da hefyd i'w weld yn y canolfannau hynny a oedd yn cynnwys anodiadau drwy gydol yr asesiad mewnol. Nid oes angen i'r rhain fod yn faith.

Mae rhai canolfannau'n dal i gyflwyno gwaith heb unrhyw fath o anodi. Lle mae adroddiadau'r ganolfan ar safoni'n codi hyn fel problem, byddai'n cael ei werthfawrogi'n fawr pe gellid rhoi sylw i'r mater mewn pryd ar gyfer cyflwyno sampl 2020. Disgwylir anodiadau o fewn prif gorff y gwaith i ddangos lleoliad y deunydd sy'n haeddu marciau. Mae hyn o gymorth mawr i'r broses safoni ac mae'n ddull y dylai pob canolfan ei fabwysiadu ar gyfer cyfresi yn y dyfodol. Yn yr achosion mwyaf eithafol, nid oedd dim anodi ar waith yr ymgeiswyr ac ni wnaeth y canolfannau ond nodi'r marc ar gyfer pob MPA, heb ddarparu unrhyw gyfiawnhad na sylwadau ar y daflen cofnodi marciau.

Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau'n cynnwys tystiolaeth o safoni mewnol lle roedd mwy nag un aseswr wedi gweithio ar farcio'r sampl. Ystyrir mai dyma'r arfer gorau. Lle mae gan ganolfannau fwy nag un aseswr, dylid cwblhau safoni mewnol i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â gweithdrefnau safonedig. Yn y gyfres hon, roedd rhai achosion lle roedd penderfyniadau asesu ar draws carfan yn brin o unrhyw fath o gysondeb oherwydd bod amrywiaeth o strategaethau asesu yn cael eu mabwysiadu gan un ganolfan. Lle mae canolfannau wedi cofrestru fel consortiwm, dylid cyflwyno un sampl ar draws canolfannau'r consortiwm a lle bo mwy nag un aseswr yn rhan o'r broses farcio, rhaid trefnu safoni mewnol ar draws canolfannau. Mae cysondeb yn allweddol.

Dylid atgoffa pob canolfan o bwysigrwydd rhoi enwau a rhifau ymgeiswyr ar y dogfennau gofynnol. Yn yr un modd, gwnewch yn siŵr bod yr holl ddogfennau wedi'u llofnodi gan yr aseswr a'r ymgeisydd. Dylai fod gan bob ymgeisydd mewn canolfan, ni waeth a yw wedi'i gynnwys yn y sampl ai peidio, daflen glawr wedi'i llofnodi sy'n cynnwys llofnodion aseswr ac ymgeisydd. Dylech fod yn ymwybodol, lle canfyddir anghysonderau mewn marcio, y gall CBAC/Eduqas ofyn am sampl pellach o waith ar unrhyw adeg.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r samplau Uned 1 a gyflwynwyd i'w safoni'n drawiadol ac yn apelio'n weledol, yn enwedig o ran dylunio deunyddiau ymgyrchu. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn nodi'r gwaith mewn fformat adroddiad gan roi sylw i'r meini prawf asesu gofynnol un ar y tro. Roedd defnyddio penawdau ac is-benawdau a oedd yn dilyn geiriad y meini prawf asesu yn arbennig o ddefnyddiol a bu'n gymorth mawr i'r broses safoni. Mewn ambell i achos, roedd y diffyg is-benawdau/rhianiad rhwng pob MPA yn golygu bod ymgeiswyr yn colli cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod deunyddiau ymgyrchu ymgeiswyr ar gyfer MPA3.2 o faint priodol. Ar adegau, roedd deunyddiau ymgyrch yn llai o ran maint, gan ei gwneud yn eithriadol o anodd i ddarllen rhai testunau. Gwelwyd arfer gorau gan ymgeiswyr a oedd wedi creu deunyddiau o faint priodol, ac a oedd wedi'u hargraffu ar wahân a'u hatodi i'r adroddiad. Caiff ymgeiswyr addasu maint y deunyddiau os ydynt yn dymuno cynnwys delwedd lai yn yr adroddiad ynghyd â thestun ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid eu cynghori i atodi'r maint gwreiddiol (mwy) hefyd er mwyn esmwytho'r broses safoni.

Cafwyd rhai ymgyrchoedd creadigol iawn a dylid canmol yr ymgeiswyr am hyn. Er ei fod yn helpu'r broses safoni os yw'r deunyddiau hyn wedi'u hargraffu mewn lliw, nid yw'n ofyniad. Fodd bynnag, pe gallai canolfannau wneud hynny, ar gyfer sgriptiau enghreifftiol yn unig, byddai hyn yn galluogi'r safonwr i weld effaith iawn y deunyddiau ymgyrchu fel y bwriadwyd iddynt gael eu gweld.

Yn olaf, mae'n bwysig iawn bod pob canolfan yn dilyn y canllawiau ar gyfer asesiadau mewnol/dan reolaeth. Asesiadau crynodedol yw'r holl asesiadau dan reolaeth ar gyfer Troseddeg a rhaid aros nes bod yr holl addysgu ar gyfer yr uned dan sylw wedi dod i ben cyn y gall ymgeiswyr roi cynnig arnynt. Ni chaniateir cwblhau rhannau o'r asesiad dan reolaeth fesul tipyn drwy gydol cyfnod addysgu'r uned. Dylai ymgeiswyr gwblhau'r asesiad mewnol yn unigol; ni chaniateir gwaith grŵp. Dylid pwysleisio bod hyn hefyd yn berthnasol i ddylunio'r deunyddiau ymgyrchu.

Yn ystod cyfres 2019, nodwyd nifer bach o faterion yn ymwneud â llên-ladrad yn ystod safoni, sy'n peri pryder. Nodwch na chaniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r gwerslyfr yn ystod yr asesiad. Gan gadw hyn mewn cof, dylai canolfannau fod yn ymwybodol o'r adnoddau a ddefnyddir ac a rennir yn ystod gwersi. Os yw nodiadau athrawon yn dibynnu'n ormodol ar gynnwys y gwerslyfr, gallai myfyrwyr atgynhyrchu'r cynnwys hwn yn yr asesiad fel eu gwaith eu hunain. Os caiff adnoddau gwersi neu nodiadau athrawon eu hatgynhyrchu yn ystod yr asesiad, ni ddylai canolfannau fod yn gwobrwyo ymgeiswyr. Rhaid i'r gwaith a gynhyrchir yn amgylchedd yr asesiad dan reolaeth ac a gyflwynir i'w asesu fod yn waith gwreiddiol yr ymgeisydd. I'r perwyl hwn, dylai canolfannau ddefnyddio'r gwerslyfr fel canllaw yn unig a dylid sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau copio nodiadau athrawon neu werslyfrau air am air. Dylid eu hannog ar bob cyfle posibl i gwblhau eu hymchwil eu hunain a pharatoi eu nodiadau eu hunain ar y meini prawf asesu.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

DD1: Deall sut mae rhoi gwybod am droseddau yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o droseddeg

Yn gyffredinol, cafodd pob MPA a oedd wedi'i gynnwys o fewn y deiliant dysgu hwn ei fodloni'n drylwyr ac yn eglur. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi rhoi sylw trwyadl i'r fanyleb. Roedd MPA1.1 wedi'i wneud yn dda ar y cyfan, a rhaid nodi bod gwelliant cyffredinol yn y ffordd y mae canolfannau'n mynd i'r afael â'r MPA hwn; mae ymgeiswyr yn cynnig dadansoddiad manwl iawn o amrywiaeth eang o droseddau, wedi'i ategu gan enghreifftiau priodol. Fodd bynnag, dylid atgoffa ymgeiswyr i ystyried y marciau sydd ar gael ar gyfer pob MPA wrth ystyried rheoli amser. Rydym yn dal i weld enghreifftiau manwl iawn o MPA1.1, MPA1.2 ac MPA1.3 er mai dim ond 4 marc yr un sydd ar gael am y rhain. Mae rheoli amser yn allweddol yn ystod rhan gyntaf y dasg.

Drwy gydol y deiliant dysgu hwn, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cymhwyso eu trafodaeth i friff yr aseiniad, lle roedd hynny'n briodol. Fodd bynnag, dylid atgoffa canolfannau i ddilyn y fanyleb.

Roedd rhai canolfannau'n dibynnu'n ormodol ar friff yr aseiniad wrth roi sylw i MPA1.1 - 1.3 gan fod rhai troseddau a rhesymau heb fod yn berthnasol i'r fanyleb neu wedi methu â dadansoddi'r troseddau gan ddefnyddio'r helaethiad enghreifftiol a amlinellwyd o dan MPA1.1.

Dylid atgoffa aseswyr i roi marciau am MPA penodol, hyd yn oed os yw'r ymgeisydd yn rhoi sylw iddo mewn MPA arall. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i MPA1.4 ac MPA1.5. Ar adegau, roedd safonwyr o'r farn bod penderfyniadau asesu gan un ganolfan ar MPA1.4 yn llym gan nad oedd aseswyr yn rhoi marciau am ddisgrifiadau a thrafodaeth briodol a oedd i'w gweld yn MPA1.5. Mewn achosion eraill, roedd marciau ar gyfer MPA1.5 yn aml yn cael eu hystyried yn hael gan fod aseswyr yn rhoi marciau llawn pan oedd yr effaith ar ganfyddiad y cyhoedd o drosedd yn ymhlyg ac nid yn eglur.

Mae nifer bach o ymgeiswyr yn methu ag ymdrin ag MPA1.6 yn ddigon manwl i gyrraedd y band marciau uwch, ond gallai hyn fod oherwydd cyfyngiadau amser. Dylid atgoffa canolfannau i ddilyn y fanyleb ar gyfer MPA1.6 gan ei bod yn amlinellu'r ffynonellau gwybodaeth i'w defnyddio a'r meini prawf gwerthuso y dylid eu hymgorffori yn y drafodaeth.

DD2: Deall sut y defnyddir ymgyrchoedd i sicrhau newid

Mae'n ymddangos mai'r adran hon yw'r fwyaf heriol i'r ymgeiswyr; fodd bynnag, roedd yn braf gweld gwelliant o ran y ffordd yr oedd ymgeiswyr yn mynd i'r afael ag MPA2.1 ac MPA2.2. Mae'n bwysig bod canolfannau'n nodi'r gwahaniaeth rhwng y ddau MPA hyn ac yn nodi na ddylid eu cysylltu. Roedd canolfannau a oedd yn ceisio eu cysylltu a rhoi cynnig arnynt fel un yn cyfyngu ar y marciau a gyflawnwyd. Mewn rhai achosion, roedd canolfannau'n canolbwyntio ar y briff yn unig wrth ymdrin â'r ddau MPA hyn. Roedd hyn yn cyfyngu ar y cwmbras i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach.

Mae MPA2.1 yn gofyn i'r ymgeiswyr gymharu ymgyrchoedd dros newid. Er mwyn cyrraedd y band marciau uwch; rhaid iddynt hefyd wneud cysylltiad clir â'u hymgyrch eu hunain. Heb y cysylltiad clir hwn ni allant gyrraedd y band uchaf. Fel mae'r fanyleb yn ei amlinellu, dylai'r cynnwys ganolbwyntio ar gymariaethau y gellir eu cysylltu â'r canlynol:

- newid polisi
- newid y gyfraith
- newid ym mlaenoriaethau asiantaethau
- newid o ran ariannu
- newid mewn ymwybyddiaeth
- newid agwedd

Roedd rhai canolfannau wedi paratoi'n dda iawn ar gyfer yr MPA hwn ac roedd yr asesiadau enghreifftiol yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth gan ymgeiswyr. Yr enghreifftiau gorau oedd y rhai lle roedd yr ymgeiswyr yn dewis amrywiaeth o ymgyrchoedd priodol dros newid ac yn cymharu'r ymgyrchoedd yn fanwl, gan ymdrin ag agweddau allweddol fel pwmpas, llwyddiant, nodau a dulliau a ddefnyddiwyd ac ati. Fel yr amlinellir yn yr adran ar ymhelaethu, gallai ymgyrchoedd gynnwys, er enghraifft, dosbarthiad cyffuriau, ewthanasia, erthyly, ysmegu ac ati. Roedd amrywiaeth o ymgyrchoedd yn yr MPA hwn hefyd yn sicrhau bod cymariaethau'n cynnwys ymgyrchoedd sy'n anelu at newid polisi, cyfraith, cyllid ac ymwybyddiaeth ac ati.

Roedd MPA2.2, gan fwyaf, yn cael ei drin yn gywir gan ymgeiswyr. Gwelwyd tystiolaeth o arfer da mewn asesiadau enghreifftiol lle roedd yr ymgeiswyr yn gwerthuso amrywiaeth eang o ddulliau cyfryngau ac yn ffurfio cysylltiadau clir ag ymgyrchoedd sy'n bodoli, gan gynnig tystiolaeth ategol a ffurfio barn resymegol.

Dylid atgoffa canolfannau bod MPA2.1 ac MPA2.2 ar wahân. Mae MPA2.2 yn gofyn i'r ymgeiswyr werthuso effeithiolrwydd y cyfryngau a ddefnyddir fel rhan o ymgyrchoedd dros newid. Dylai ymgeiswyr edrych ar amrywiaeth o fathau o gyfryngau, er enghraifft, teledu, taflenni neu'r cyfryngau cymdeithasol a dylent fod yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd o fewn ymgyrchoedd dros newid. Dylid ategu'r gwerthusiadau hyn drwy gyfeirio at enghreifftiau o ymgyrchoedd perthnasol i ddangos pa mor llwyddiannus/aflwyddiannus y bu'r cyfryngau penodol hynny yn yr ymgyrch benodol honno.

DD3: Cynllunio ymgyrchoedd dros newid sy'n ymwneud â throseddau

Y deilliant dysgu hwn a gynhyrchodd yr ymatebion mwyaf trwyadl ac ystyriol gan ymgeiswyr, gan ddangos tystiolaeth glir o baratoi effeithiol gan y rhan fwyaf o ganolfannau. Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr ymgyrchoedd a oedd wedi'u cynllunio, eu dylunio a'u cyfiawnhau yn yr adran hon yn drawiadol. Fodd bynnag, rhaid i'r ymgeiswyr fod yn ofalus wrth ddewis ymgyrch dros newid. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr yn creu ymgyrchoedd nad oeddent yn briodol i newid ymddygiad neu nad oeddent yn cyd-fynd â'r dasg asesu Uned 1 i greu ymgyrch ar gyfer 'trosedd cudd neu drosedd sydd heb gael ei gofnodi'. Braff oedd gweld bod cymaint o ganolfannau wedi cydnabod hyn a bod yr ymgeiswyr felly'n gallu cyfiawnhau eu dewisiadau'n llawn.

Roedd yr ymgeiswyr yn rhoi sylw manwl i MPA3.1, gan greu cynllun gweithredu cynhwysfawr ar gyfer ymgyrch briodol dros newid. Roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth ragorol o ofynion yr MPA ac yn amlwg wedi'u paratoi'n dda gan ganolfannau. Roedd yr enghreifftiau gorau'n rhoi sylw i'r meysydd canlynol yn y fanyleb:

- nodau ac amcanion
- cyfiawnhau'r dewis o ymgyrch
- cynulleidfa darged
- dulliau i'w defnyddio
- deunyddiau i'w defnyddio
- sefyllfa ariannol
- graddfeydd amser
- adnoddau sydd eu hangen.

Dylid atgoffa ymgeiswyr i osod cyd-destun ar gyfer yr ymgyrch dros newid yn ystod y broses gynllunio a sicrhau eu bod yn cynllunio eu gweithredoedd mewn trefn briodol o ran amser. Mewn rhai cynlluniau ymgyrchoedd, nid oedd camau gweithredu mewn trefn berthnasol o ran amser. Mae hon yn agwedd allweddol ar feini prawf y band marciau ac yn aml roedd yn golygu bod ymgeiswyr yn cyfyngu ar y marciau roedd yr aseswr yn gallu eu rhoi. Rhaid bod dilyniant amser clir i'w weld er mwyn ateb gofynion MPA3.1.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd deunyddiau'r ymgyrch a gynlluniwyd fel rhan o MPA3.2 yn galluogi ymgeiswyr i gyflawni marciau uchel. Gwelwyd tystiolaeth o arfer rhagorol lle roedd ymgeiswyr wedi cynllunio amrywiaeth o ddeunyddiau priodol ac yn gallu dangos eu gallu creadigol gan ddefnyddio iaith berswadiol a delweddau pwerus i ysgogi diddordeb. Neilltuodd rhai ymgeiswyr gryn dipyn o amser i'r adran hon gan ddefnyddio ymchwil i greu deunyddiau priodol a fyddai'n ennyn diddordeb y gynulleidfa darged. Mewn rhai enghreifftiau gwannach, cynlluniodd ymgeiswyr un math o gyfrwng (er enghraifft: un poster) a oedd yn aml yn gyfyngedig o ran perthnasedd a chywirdeb i'r ymgyrch dros newid dan sylw. Dylid atgoffa canolfannau mai'r disgwyliad, ar gyfer MPA 20 marc o'r natur hon, fydd bod ymgeiswyr yn cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau ymgyrchu.

Yn 2019, dewisodd y rhan fwyaf o ganolfannau droseddau heb eu cofnodi yn ymwneud â throsedd casineb a thrais domestig.

Ar gyfer MPA3.3, roedd angen cyfiawnhad llawn dros yr angen am yr ymgyrchoedd a ddewiswyd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi gwneud yn dda yma, ac wedi ennill marciau uchel iawn. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn cyfiawnhau eu deunyddiau yn MPA3.2 ac yn cynnwys ystadegau ac achosion bywyd go iawn yn MPA3.3 er mwyn helpu i gyfiawnhau'r angen am eu hymgyrch.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dylai canolfannau sicrhau bod yr athrawon a'r ymgeiswyr i gyd yn gwbl ymwybodol o'r newid i'r canllawiau ynglŷn â gweinyddu asesiad dan reolaeth Uned 1 yn 2019-20. Rhaid defnyddio briffiau a thasgau sydd newydd eu cyhoeddi, ac ni ellir rhannu'r briff gyda'r myfyrwyr cyn yr asesiad dan reolaeth
- Dylai canolfannau anfon samplau wedi'u trefnu, gan gynnwys yr holl waith papur gofynnol, at y safonwr erbyn 15 Mai 2020
- Rhaid i bob darn o waith yn y sampl gyd-fynd â thaflen ddilysu, wedi'i llofnodi gan yr aseswr a'r dysgwr ym mhob achos
- Dylai canolfannau annog myfyrwyr i reoli eu hamser yn effeithiol yn ystod yr asesiad dan reolaeth, gan neilltuo cyfnod cymesur o amser i bob MPA
- Dylai canolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith gwreiddiol yn yr amgylchedd asesiad dan reolaeth ac nad ydynt yn or-ddibynnol ar nodiadau wedi'u hatgynhyrchu o'r gwerslyfr. Ni ddylid gwobrwyo ymgeiswyr am ailgynhyrchu eu nodiadau dosbarth neu ddarnau o'r gwerslyfr yn unig.

CBAC LEFEL 3 TROSEDDEG GYMHWYSOL

Tystysgrif Lefel 3

Haf 2019

UNED 2: DAMCANIAETHAU TROSEDDEGOL

Sylwadau Cyffredinol

Roedd llawer o'r ymgeiswyr a oedd yn sefyll yr uned hon a asesir yn allanol wedi'u paratoi'n dda ac yn gallu cyflawni ar lefel uchel. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod rhai ymgeiswyr yn anghyfarwydd â chynnwys rhai cwestiynau. Atgoffir canolfannau bod angen iddynt sicrhau bod ymgeiswyr yn gyfarwydd â phob agwedd ar y fanyleb. Mae hyn yn benodol yn cynnwys yr adran gynnwys gan fod hyn yn ffurfio sail unrhyw gwestiynau sy'n ymddangos ar y papur arholiad. Roedd ymgeiswyr oedd yn cyflawni'n uwch yn gallu defnyddio amrywiaeth o derminoleg arbenigol, ac yn defnyddio enghreifftiau perthnasol a phriodol i ategu eu hymatebion. Un agwedd ddymunol iawn ar y papur arholiad hwn yn y gyfres hon oedd y ffaith bod ymgeiswyr yn llawer llai aml yn dewis damcaniaethau anghywir pan fo cwestiwn yn gofyn yn benodol, er enghraifft, am ddamcaniaeth fiolegol, unigolyddol neu gymdeithasegol. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn defnyddio'r deunydd ffynhonnell sy'n ymddangos ym monyn y cwestiwn i roi arweiniad i'r ateb. Ar adegau roedd yn ymddangos bod y deunydd hwn yn cael ei anwybyddu ac felly roedd cysylltiadau perthnasol yn cael eu hepgor.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

- Cw.1 (a) (i)** Roedd yn braf nodi bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu enwi damcaniaeth gymdeithasegol o droseddoldeb yn gywir. Fodd bynnag, roedd lleiafrif yn methu gwerthfawrogi'r mathau amrywiol o ddamcaniaethau ac yn disgrifio naill ai ddamcaniaeth fiolegol neu unigolyddol. Ni fyddai'r ymatebion yn y categori hwn yn llwyddo i ennill unrhyw farciau. Roedd gan y rhai a oedd yn dewis damcaniaeth gymdeithasegol y gallu i'w disgrifio'n glir ac yn fanwl. Gellid gweld eu bod wedi rhyngweithio'n dda gyda'r deunydd ffynhonnell, gan mai'r damcaniaethau mwyaf cyffredin oedd Marcsaeth a damcaniaeth straen. Fodd bynnag, defnyddiwyd y ddamcaniaeth labelu a realaeth y chwith a'r dde hefyd. Yn yr adran hon, roedd yn bwysig cysylltu'r ddamcaniaeth â throeddoldeb yn hytrach na dim ond disgrifio sut mae damcaniaeth yn gweithio. Mewn geiriau eraill, sut mae'r ddamcaniaeth yn esbonio pam mae pobl yn troseddu.
- (ii)** Roedd y cwestiwn hwn yn dangos pwysigrwydd darllen yr holl gwestiynau cysylltiedig er mwyn sicrhau y gellid dadansoddi'r ddamcaniaeth a ddewiswyd yn flaenorol yn erbyn y deunydd ffynhonnell. Felly, roedd y rhai oedd yn dewis Marcsaeth neu ddamcaniaeth straen fel rheol yn darparu ymatebion da drwy gyfeirio at ddiweithdra Tony a cham-drin domestig Martha. Fodd bynnag, ychydig o ymgeiswyr a gafodd farciau llawn oherwydd, er bod troseddau dwyn Tony wedi'u cynnwys, yn aml cafodd y cysylltiad â cham-drin domestig ei hepgor. Ar adegau, roedd yn ymddangos bod ymgeiswyr yn cael trafferth gyda dadansoddi damcaniaethau eraill, ac yn aml roedd yn rhaid iddynt ychwanegu ffactorau damcaniaethol at y senario er mwyn bod mewn sefyllfa i ateb y cwestiwn hwn.

(iii) Roedd hwn yn gwestiwn heriol gan ei fod yn cynnwys sgîl gwerthuso, sy'n sgîl uwch. Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i beidio â rhoi crynodeb o'r ddamcaniaeth i ddechrau'r ateb. Mae'n fwy priodol dechrau drwy werthuso ar unwaith. I gyrraedd marciau llawn byddai disgwyl i ateb gynnwys cryfderau a gwendidau'r ddamcaniaeth, ond nid yr un faint o'r ddau o reidrwydd. Ychydig iawn o werthuso a gafwyd yn yr ymatebion gwannach; roeddent yn aml yn rhoi'r ddamcaniaeth ac yna'n cyfeirio'n gryno at benderfyniaeth heb ddatblygu ei harwyddocâd na'i hystyr. Yn amlwg, roedd y dull hwn yn cyfyngu ar farciau. Roedd yr ymatebion a oedd yn cael marciau uwch yn rhoi gwerthusiad clir, cywir a pherthnasol o'r ddamcaniaeth gymdeithasegol, gan nodi cryfderau a gwendidau. Dylid atgoffa canolfannau bod y gwerthusiad yn ymwneud nid yn unig â'r ddamcaniaeth yn gyffredinol ond â gwerth, neu fel arall, y ddamcaniaeth o ran esbonio troseddoldeb.

(b) Cafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn ar y cyfan. Ofn a chywilydd oedd y ddau reswm a nodwyd yn fwyaf rheolaidd. Roedd angen datblygu'r rhesymau i ryw raddau er mwyn ennill marciau llawn. Roedd yn braf gweld yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan eu bod yn dangos bod canolfannau'n sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r agwedd synoptig ar y fanyleb.

(c) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio deunydd synoptig o uned 1, a chafwyd ymateb cymysg. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniadau cywir a chlr o amrywiaeth o ganlyniadau gan gynnwys effaith gynyddol, dad-droseddoli, blaenoriaethu gan yr heddlu a newid diwylliannol, a oedd yn aml yn gysylltiedig â'r ddamcaniaeth ffenestri wedi'u torri. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion yn gyffredinol ac nid oeddent yn cyfeirio at gysyniadau penodol, gan nodi pethau fel 'bydd troseddu'n parhau ac ni chaiff troseddwy eu dal'. Ni chafodd ymatebion o'r fath farciau mor uchel â'r rhai a oedd yn cyfeirio'n benodol at gysyniadau uned 1. Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr sy'n cyflawni'n uwch i gynnwys terminoleg allweddol a defnyddio enghreifftiau.

Cw.2 (a) Er ei fod yn ymddangos yn syml, yn aml nid atebwyd y cwestiwn hwn yn gywir. Byddai'r dehongliad bob dydd o ffurfiol ac anffurfiol wedi bod yn dderbyniol. Er mwyn rhoi'r ddau farc, roedd disgwyl i'r ymatebion awgrymu cyfeiriad at natur swyddogol polisi ffurfiol. Yn aml, roedd atebion yn sôn am gysylltiad â pholisi sy'n cael ei greu gan y Llywodraeth, ond gallai anffurfiol ymwneud â sefydliadau eraill fel teuluoedd ac ysgolion. Er nad yw'n hanfodol, roedd yr ymatebion gorau'n cynnwys enghreifftiau, fel deddfau a wneir gan y senedd i newid dedfryd, i riant neu rieni'n gwahardd plentyn rhag gadael y tŷ.

(b) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi o leiaf un polisi rheoli troseddau cywir. Roedd llawer yn defnyddio'r anogwr yn y deunydd ffynhonnell i ategu'r ateb hwn drwy gyfeirio at boblyddiaeth gosbol i helpu i ddisgrifio'r polisiâu rheoli troseddau y gallai Alan eu cynnig. Roedd y mesurau'n cynnwys dim goddefgarwch, defnyddio teledu cylch cyfyng a datblygu polisi poblyddiaeth gosbol. Roedd yr ymatebion a gafodd sgorau uwch hefyd yn gwneud cysylltiadau ag agwedd Realiaeth y Dde at droseddoldeb. I gael mynediad i'r band uchaf, roedd disgwyl i'r ymgeiswyr roi rhywfaint o fanylder, fel esbonio beth yw ystyr poblyddiaeth gosbol, a chynnig enghreifftiau yn achlysurol.

Ni lwyddodd yr ymatebion a gafodd sgôr is i wneud unrhyw gysylltiad â'r syniad o gosbau llym ac roeddent yn disgrifio polisiau a oedd yn amhriodol ar gyfer y sefyllfa. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn defnyddio'r deunydd ffynhonnell ym monyn y cwestiwn i roi arweiniad i'r cynnwys gofynnol.

- (c) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth o Uned 1 er mwyn esbonio effaith cynrychioliadau'r cyfryngau o drosedd ar ganfyddiad y cyhoedd ohono. Roedd amrywiaeth eang o ymatebion yn ymddangos; roedd rhai'n cynnwys sylwadau cyffredinol iawn am y cyfryngau, yn aml wedi'u cyfyngu i fand marciau 1 ac eraill yn rhoi gwybodaeth glir a manwl yn ymdrin â chynnwys y cwestiwn. Roedd yr ymatebion a gafodd y sgorau uchaf yn gallu esbonio mwy nag un ffordd mae'r cyfryngau'n effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd. Roedd ymatebion o'r fath yn defnyddio cysyniadau fel panig moesol, ymhelaethu gwyrdd, stereoteipio, newid mewn agweddau a phryderon. Roedd llawer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar banig moesol a'i effaith ar ganfyddiad y cyhoedd o droseddau. Roedd nifer o sgriptiau'n cynnwys tystiolaeth fel astudiaeth Stan Cohen ac eraill yn gwneud cysylltiadau priodol ag enghreifftiau cyfoes mewn cymdeithas fel troseddau cylllyll a bomio Arena Manceinion. Roedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at banig moesol ond yn methu â datblygu eu hesboniad yn llawn gan gyfyngu eu hateb i'r un cysyniad hwn. Roedd yr ymatebion gwannach ond yn ystyried sut mae'r cyfryngau'n cynrychioli troseddau, gan drafod agweddau fel clodfori a gor-ddweud, ond heb ystyried yr effaith ar y cyhoedd. Eto, byddai'r math hwn o ateb yn cyfyngu ar farciau.
- (ch) Roedd hwn yn gwestiwn heriol i'r ymgeiswyr a chafwyd amrywiaeth o ymatebion iddo. Nid oedd angen archwilio'r ddamcaniaeth unigolyddol fel damcaniaeth personoliaeth Freud, a arweiniodd at seicdreiddiad. Roedd yr ymatebion a gafodd y sgorau uchaf yn cyfeirio at bolisiau fel rhaglenni atgyfnerthu â thalebau, a seicdreiddiad, gan ymgorffori asesu clir ac nid disgrifio'r polisi perthnasol yn unig. Roedd angen dyfarniadau am y polisi er mwyn cyrraedd y band marciau uwch. Roedd lleiafrif sylweddol o ymatebion yn methu â nodi polisi priodol ac nid oedd eu hawduron yn gwerthfawrogi natur polisiau unigolyddol, gan gyfeirio'n aml at rai sy'n ymwneud â damcaniaethau cymdeithasegol am droseddoldeb. Gofynnir i ganolfannau atgoffa ymgeiswyr y gall unrhyw agwedd ar y fanyleb fod yn rhan o bapur arholiad.
- (d) Cwestiwn a atebwyd yn dda; roedd yn ymddangos bod yr ymgeiswyr yn barod amdano. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi methu â gwerthfawrogi'n llwyr bod y cwestiwn yn gofyn am gyfreithiau yn newid dros amser, ac wedi ysgrifennu am newidiadau yn sgil lle a diwylliant. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd, tynnir sylw at yr angen i ganolbwyntio ar eiriad y cwestiwn. Roedd nifer sylweddol o'r atebion yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd dros newid ac roedd hyn yn cyfyngu ar y marciau a roddwyd. Roedd disgwyl i'r ymgeiswyr ddweud stori'r camau tuag at newid y gyfraith. Roedd y pynciau ysmegu, hawliau menywod a gwrywygydiaeth yn ymddangos yn aml ac yn galluogi marciau uchel i gael eu rhoi. Roedd y cwestiwn yn gofyn am enghreifftiau o gyfreithiau sydd wedi newid dros amser ac felly roedd trafod un enghraifft yn unig yn golygu nad oedd modd rhoi marciau llawn. Cadwyd marciau llawn ar gyfer yr ymatebion hynny oedd yn amlinellu'r newid deddfwriaethol gwirioneddol. Byddai'n arfer da cynnwys enw'r Ddeddf Seneddol a newidiodd y gyfraith. Er enghraifft y Ddeddf Priodasau (Cyplau o'r un rhyw) (2013) neu'r Ddeddf Iechyd (2006).

- Cw.3 (a)**
- (i)** Roedd hwn yn gwestiwn heriol i rai ymgeiswyr; roedd y rhain yn damcaniaethu am fioleg a throseddoldeb ond yn methu â sôn am unrhyw ddatblygiad polisi. O ganlyniad i hyn, roedd rhai ymgeiswyr yn rhoi disgrifiad syml o ddamcaniaeth fiolegol heb bolisi. Roedd y rhai a oedd yn llwyddo i ateb y cwestiwn yn cyfeirio at ddamcaniaeth niwrogemegol a'i dylanwad ar ddeiet troseddswyr treisgar, neu at ddylanwad damcaniaeth genetig ar bolisiau fel ewgeneg a'r gosb eithaf. Er mwyn cael marciau llawn, dim ond ychydig o ddatblygu'r polisi oedd ei angen.
 - (ii)** Yn gyffredinol, roedd y cwestiwn hwn yn cynhyrchu ymatebion da ac yn caniatáu i ymgeiswyr ddewis damcaniaeth fiolegol o droseddu. Y mwyaf poblogaidd oedd Lombroso, Sheldon a damcaniaeth XYY. Roedd eraill yn cynnwys astudiaethau gefeilliaid a mabwysiadu a gwaith Raine ar adeiledd yr ymennydd. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniadau cywir a defnyddio o leiaf rhywfaint o derminoleg arbenigol. Wrth ateb y math hwn o gwestiwn, mae'n bwysig iawn gwneud cysylltiad â throseddoldeb. Yn anffodus, mewn rhai achosion roedd damcaniaeth amhriodol wedi'i dewis, gan olygu na ellid rhoi unrhyw farciau o gwbl. Roedd hyn yn llai cyffredin na'r llynedd.
 - (iii)** Cwestiwn gwerthuso arall ac eto mae gormod o ymgeiswyr yn rhoi ymatebion disgrifiadol sy'n cyfyngu'n sylweddol ar y marciau a roddir. Rhoddodd rhai ohonynt ddisgrifiad a pheth gwerthusiad ond dylai canolfannau unwaith eto ailadrodd nad oes angen cefndir, dim ond cryfderau a gwendidau, yn yr achos hwn, un ddamcaniaeth ffisiolegol neu enetig. Lombroso, Sheldon a damcaniaeth XYY oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd yma. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn dangos eu dryswch rhwng damcaniaethau seicolegol a ffisiolegol.
- (b)**
- (i)** Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ddisgrifio damcaniaeth unigolyddol o droseddoldeb, a dewisodd llawer amlinellu damcaniaeth dysgu cymdeithasol gan gyfeirio at Bandura. Cyfeiriodd ymatebion gwell at ymddygiad a oedd yn cael ei ddysgu drwy arsylwi modelau rôl ac atgyfnerthu dirprwyol, gan gymhwyso'r cysyniadau hyn yn llwyddiannus i droseddoldeb. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn cyrraedd y band marciau uwch. Dylid atgoffa ymgeiswyr nad yw'r arbrawf dol Bobo yn ddamcaniaeth ynddo ei hun, ond gellir ei ddefnyddio i ategu neu esbonio'r ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol. Roedd llawer o ymgeiswyr yn cyfyngu eu hateb i ddisgrifiad o'r astudiaeth yn hytrach na'r ddamcaniaeth. Roedd damcaniaeth personoliaeth Freud, yn ogystal â'r rhai a gyflwynwyd gan Bowlby ac Eysenck, hefyd yn cael eu defnyddio gan ymgeiswyr.
 - (ii)** Roedd y cwestiwn olaf hwn yn werthusiad o'r ddamcaniaeth unigolyddol a ddisgrifiwyd yn *b (i)*, ac unwaith eto, roedd llawer yn gweld y sgîl hwn yn heriol. O ganlyniad, rhoddodd llawer o ymgeiswyr ymatebion disgrifiadol; fodd bynnag, roedd yr ymatebion a oedd yn sgorio uchaf yn gallu trafod cryfderau a gwendidau'r ddamcaniaeth yn benodol heb roi crynodeb diangen ohoni. I gyrraedd y band marciau uchaf byddai disgwyl cryfderau a hefyd gwendidau, ond nid yr un faint o'r ddau o reidrwydd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Rhaid i ganolfannau sicrhau ymdriniaeth â phob agwedd ar y fanyleb cynnwys
- Anogir ymgeiswyr i ymarfer cwestiynau gwerthuso ac asesu
- Anogir ymgeiswyr i feddu ar wybodaeth ffeithiol benodol a chlir sy'n gysylltiedig â damcaniaethau troseddegol. Mae ffocws ar hyn yn dwyn ffrwyth eisoes, gan fod llai wedi dewis math anghywir o ddamcaniaeth troseddoldeb o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol
- Anogir ymgeiswyr i ddefnyddio'r deunydd ffynhonnell ym monyn y cwestiwn yn well. Roedd methu â gwneud hynny yn aml yn golygu bod canllawiau'n cael eu hanwybyddu a bod deunydd perthnasol yn cael ei hepgor.

CBAC LEFEL 3 TROSEDDEG GYMHWYSOL

Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 3 O LEOLIAD Y TROSEDD I'R LLYS

Sylwadau Cyffredinol

Nod yr adroddiad isod yw myfyrio ar ansawdd y gwaith a'r asesu a welwyd yn ystod cyfres safoni 2019 a chynnig cyngor i ganolfannau sy'n dymuno canfod meysydd i'w datblygu a'u gwella. Mae angen atgoffa canolfannau o bwysigrwydd darllen adroddiadau'r Uwch Safonwr bob blwyddyn. Mewn lleiafrif o ganolfannau, roedd rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn yn 2018 ond heb gael sylw digonol, ac roedd hyn o ganlyniad yn cyfyngu ar farciau'r ymgeiswyr. Dylai canolfannau hefyd gyfeirio at y canllawiau a gyhoeddir ar wefan CBAC er mwyn penderfynu sut i gynnal a threfnu'r asesiad dan reolaeth, a hefyd sut i farcio a safoni'r samplau a anfonwyd.

Glynodd y rhan fwyaf o'r canolfannau at y rheoliadau caeth a osodwyd ar gyfer cynnal yr asesiad dan reolaeth, ond ni wnaeth rhai o'r canolfannau wneud hynny. Un maes a achosodd broblem i rai canolfannau oedd defnyddio'r gwerslyfr cymeradwy o fewn yr amgylchedd asesiad dan reolaeth. Ni ddylai ymgeiswyr ddefnyddio'r gwerslyfr na darnau ohono yn yr amgylchedd asesiad dan reolaeth a rhaid i athrawon gadw hyn mewn cof wrth gynhyrchu nodiadau ar gyfer yr ymgeiswyr. Rhaid i'r holl waith a gynhyrchir yn yr amgylchedd asesiad dan reolaeth fod yn waith yr ymgeisydd ei hun ac ni ddylai ymgeiswyr fod yn ailysgrifennu paragraffau air am air o werslyfr neu o nodiadau athrawon. Lle bo hyn yn digwydd, dylai'r ganolfan dan sylw gymryd camau priodol wrth roi marciau i'r ymgeisydd neu'r ymgeiswyr hyn.

Gwelwyd arfer rhagorol gan y mwyafrif o ganolfannau o ran cyfyngiadau rhyngrwyd. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir na ddylid caniatáu mynediad i'r rhyngrwyd i ymgeiswyr yn ystod asesiad dan reolaeth Uned 3. O ganlyniad, ni fyddai disgwyl unrhyw hypergysylltau na delweddau o fewn gwaith ymgeiswyr. Dylai canolfannau drafod gyda'u swyddog arholiadau sut i analluogi mynediad i'r rhyngrwyd neu fonitro myfyrwyr o fewn yr asesiad dan reolaeth er mwyn sicrhau bod y lefel uchel hon o reolaeth yn cael ei chynnal.

Dylai canolfannau fod mor ofalus â phosibl i sicrhau bod samplau'n cael eu hanfon at safonwyr erbyn 15 Mai a bod y sampl wedi'i drefnu'n ofalus i hwyluso'r broses safoni. Rhaid i'r holl daflenni clawr gael eu llofnodi gan aseswr a dysgwr, a dylai fod rhif y ganolfan a rhif yr ymgeisydd ar bob un. Os oes gan y ganolfan fwy nag un aseswr, dylid penodi aseswr arweiniol a dylent hwythau hefyd lofnodi'r ddalen flaen. Dylai pob sampl gynnwys un copi printiedig o'r briff aseiniad a ddewiswyd a Ffurflen Sicrhau Ansawdd wedi'i chwblhau (ar gael ar wefan Troseddeg CBAC/Eduqas) i gadarnhau manylion y broses safoni fewnol yn y ganolfan (lle bo'n berthnasol). Dylai canolfannau fod yn ymwybodol y gellir gofyn am sampl pellach ar unrhyw adeg a lle bo hynny'n digwydd, mae'n rhaid anfon yr holl waith sampl pellach hefyd gan gynnwys taflenni clawr wedi'u llofnodi gan yr ymgeisydd a'r aseswr. Cynghorir canolfannau i gwblhau'r gwaith papur ar adeg yr asesiad dan reolaeth. Cofiwch na chaiff gwaith sampl ei safoni os yw wedi'i anfon heb y gwaith papur gofynnol. Hoffem eich hysbysu nad ydym yn derbyn gwaith wedi'i gyflwyno ar ddyfeisiau USB. Bydd gwaith sy'n cael ei anfon ar ddyfeisiau USB yn cael ei ddychwelyd yn syth i'r ganolfan a byddwn yn gofyn am gopiau papur.

Ar y cyfan, roedd gwaith gweinyddol ar y samplau o safon uchel. Enghraifft o arfer gorau oedd anodi clir, nid o reidrwydd yn faith, gan athrawon a oedd yn cynnig cyfiawnhad clir dros y marciau a roddwyd. Noder os gwelwch yn dda, wrth farcio, y dylai canolfannau nodi tystiolaeth ar gyfer rhoi marciau yn glir ar waith yr ymgeisydd ac yna nodi eu cyfiawnhad dros roi marciau yn y blwch sylwadau'r aseswr ar gyfer pob MPA. Ni ddylai aseswyr gopio'r meini prawf marcio yn unig ond os nad yw ymgeisydd wedi ennill marciau llawn – dylai'r rhesymu fod yn glir ac wedi'i gyfiawnhau drwy'r cyfan.

Ar y cyfan, roedd gwaith ymgeiswyr wedi'i strwythuro'n addas ac yn gydlynol ac roedd y rhan fwyaf wedi cwblhau eu hasesiad mewn fformat adroddiad. Roedd defnyddio penawdau ac is-benawdau a oedd yn gysylltiedig â geiriad y meini prawf asesu yn arbennig o ddefnyddiol a dylid annog hyn. Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod y gwaith yn cael ei drefnu yn nhrefn rhifau ymgeiswyr pan gaiff ei anfon a bod tudalennau pob sampl wedi'u cysylltu at ei gilydd. Dylai rhif yr ymgeisydd fod yn hawdd ei adnabod ar bob tudalen ac anogir canolfannau i gynghori ymgeiswyr i roi eu henw a'u rhif ymgeisydd ym mhennyn neu droedyn eu dogfen os ydynt yn defnyddio prosesydd geiriau.

Unwaith eto eleni, roedd yr ymgeiswyr wedi ymgysylltu'n dda â senario/briff aseiniad Gareth Hughes neu John Smith. Roedd atebion cryfach yn dangos tystiolaeth o gymhwyso i'r briff drwy gydol prif gorff y gwaith, lle bo'n berthnasol. Mae hyn yn arfer gorau a dylai pob canolfan ei annog. Ni ddylai canolfannau gosbi ymgeiswyr am beidio â chyfeirio'n uniongyrchol at y senario/briff aseiniad ar gyfer MPA penodol lle nad yw'r cynllun marcio'n cyfarwyddo bod rhaid cyfeirio at y briff. I'r gwrthwyneb, dylid annog ymgeiswyr hefyd i beidio â chyfeirio at friff yr aseiniad os nad yw'n berthnasol i'r pwynt maen nhw'n ei wneud.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

DD1: Deall proses ymchwiliadau troseddol

Ar y cyfan, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth ragorol wrth ymdrin â'r Deilliant Dysgu hwn ac roedd yn amlwg bod canolfannau wedi bod yn darparu'r DD hwn at safon uchel. Fodd bynnag, gwelwyd rhai problemau, yn debyg i'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad hwn y llynedd, o fewn gwaith gan rai canolfannau. Mae'r problemau hyn wedi'u nodi isod.

Mae angen i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn rhoi mwy na disgrifiad syml o rolau personél o dan MPA1.1 gan fod y pwyslais ar gyfyngiadau'r rolau hyn. Dylid ystyried effeithiolrwydd yng nghyd-destun cyfyngiadau posibl: cost, arbenigedd ac i ba raddau y maent ar gael, fel yr amlinellir yn y fanyleb. Yn aml, hepgorwyd hyn gan ymgeiswyr neu roedd yr ymgais a wnaethpwyd i drafod yn arwynebol i raddau helaeth. Gellir cynnwys enghreifftiau achos i ddatblygu pwyntiau ymhellach ac ehangu gwerthuso.

Wrth ystyried MPA1.2, dylai ymgeiswyr asesu amrywiaeth o dechnegau ymchwiliol o ran eu heffeithiolrwydd mewn ymchwiliadau troseddol. Mae rhai canolfannau'n parhau i drafod y broses dreialu; does dim angen hyn ar gyfer yr MPA hwn. Dylid cynnwys astudiaethau achos i wella'r asesiad o'r gwahanol dechnegau, ond dylai ymgeiswyr gofio mai dim ond agweddau perthnasol yr astudiaethau achos hyn y dylid eu cynnwys. Nid oes angen disgrifio pob agwedd allweddol ar achos. Nodwch y dylid defnyddio briff yr aseiniad i wella ac ehangu trafodaeth ac na ddylai fod yn unig bwyslais MPA1.1 ac MPA1.2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hefyd yn trafod effeithiolrwydd ymchwiliadau o ran sefyllfaoedd a mathau o droseddau. Mae hyn yn arfer da er mwyn datblygu eu hymateb ymhellach yn unol â'r fanyleb. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn strwythuro MPA1.2 drwy ddisgrifio technegau ac yna archwilio cryfderau a chyfyngiadau'r technegau dan sylw tra'n gwneud sylwadau ar effeithiolrwydd mewn ymchwiliadau troseddol gan gymhwyso astudiaethau achos drwyddi draw i ategu pwyntiau.

Roedd MPA1.3 ac MPA1.4 wedi'u gwneud yn dda ar y cyfan. Dylai canolfannau barhau i ddilyn y fanyleb drwy roi sylw i dystiolaeth ffisegol a thystiolaeth gan dystion a dylent sicrhau bod y ffocws ar y broses dystiolaeth, gan gynnwys: casglu, trosglwyddo, storio, dadansoddi a'r personél sy'n ymwneud â'r broses. Yn aml, dim ond un math o dystiolaeth a drafodwyd neu dim ond yr agwedd gasglu a nodwyd. Dylai ymgeiswyr ymatal rhag teipio rhestr o'r modd y cesglir gwahanol fathau o dystiolaeth, fel y dangosir yn y gwerslyfr. Dylai canolfannau ddilyn yr adran ar ymhelaethu yn MPA1.3 gan ei bod yn nodi: 'Dylai dysgwyr ystyried sut cafodd gwahanol fathau o dystiolaeth eu prosesu drwy amrywiaeth o astudiaethau achos, e.e. Barry George, Sally Clarke, Angela Cannings, Amanda Knox.' Y llynedd ac eleni, nid oedd llawer o ganolfannau'n cynnwys trafodaeth am astudiaethau achos perthnasol o fewn yr MPA hwn.

Yn MPA1.4, mae llawer o ymgeiswyr yn tueddu i drafod y tri unigolyn ond nid ydynt yn strwythuro'r drafodaeth o'r arestio hyd at apêl (fel y nodir yn y fanyleb), sy'n cyfyngu ar farciau.

DD2: Deall y broses o erlyn pobl a ddrwgdybir

Gwelwyd llawer o arfer rhagorol lle roedd canolfannau wedi ymgysylltu'n llawn â'r fanyleb i gynnwys adran ymhelaethu'r DD hwn. Dylid nodi bod rhai ymgeiswyr (a rhai canolfannau cyfan) yn or-ddibynol ar y gwerslyfr, ac yn aml yn atgynhyrchu darnau o'r gwerslyfr air am air. Nid yw hyn yn arfer derbyniol ac ni ddylai ymgeiswyr gael y gwerslyfr na nodiadau sy'n atgynhyrchu cynnwys y gwerslyfr yn ystod yr asesiad dan reolaeth. Lle roedd y safonwr yn canfod bod cynnwys y gwerslyfr wedi'i atgynhyrchu'n uniongyrchol, roedd yn cyfyngu ar y marciau.

Er eu bod yn aml wedi'u gwneud yn dda, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cynnwys cyfraith achosion berthnasol yn eu trafodaethau ar gyfer MPA2.1 ac MPA2.3. Dylai ymgeiswyr wrthod yr ysfa i ddefnyddio pwyntiau bwled oherwydd gall hyn effeithio ar eglurder a dyfnder yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio. Roedd gweithdrefnau troseddol a chyfreithiol yn aml wedi'u hymgorffori o fewn MPA2.2, ond dylid trafod rolau'r personél sy'n gysylltiedig â phrosesau treialu er mwyn cael y marciau uchaf.

Yn MPA2.4, dylai'r prif ffocws fod ar arwyddocâd effaith pob rhanddeiliad a restrir yn y fanyleb a sut gallai hyn ddylanwadu ar dreial troseddol. Dylai ymgeiswyr asesu'r effeithiau hyn a defnyddio astudiaethau achos perthnasol i wella ymatebion. Roedd ymatebion cryfach yn cynnwys cyfeiriadau at achosion troseddol perthnasol, er enghraifft Christopher Jefferies, Colin Stagg a Sally Clark. Unwaith eto, dylai ymgeiswyr ddewis gwybodaeth allweddol i ategu pwyntiau trafod ac nid disgrifio achosion llawn.

DD3 Gallu adolygu achosion troseddol

Mae'r adborth yn parhau i fod yn gyson â 2018 a rhaid i ganolfannau ymdrin â'r materion hyn cyn rhoi'r marciau uchaf i ymgeiswyr. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng MPA3.1 ac MPA3.2 ac o fanteision trafod y ddau MPA hyn ar wahân. Mae rhai canolfannau'n parhau i orgyffwrdd trafodaethau lle mae hyn yn amhriodol.

Roedd yr ymatebion i MPA3.1 yn dangos cryn gysondeb ond dylai canolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â mwy nag un ffynhonnell wybodaeth. Nid yw senario briff yr aseiniad yn unig yn sail ddigon mawr ar gyfer trafodaeth. Roedd ymatebion cryfach yn ymgorffori enghreifftiau o achosion fel Jeremy Bamber, Amanda Knox, trychineb Hillsborough, Christopher Jefferies a Roy Meadows ac ati drwyddi draw.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn amlwg wedi paratoi'n dda oherwydd roeddent yn archwilio amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth, trawsgrifiadau treialon, adroddiadau gan y cyfryngau, dyfarniadau ac Adroddiadau'r Gyfraith. Roedd llawer o ymgeiswyr hefyd yn ymdrin yn dda â rhagfarn, barn, bod yn gyfredol, amgylchiad a chywirdeb. Roedd yr ymatebion gwannaf yn tueddu i roi disgrifiad cyffredinol o achosion heb ddefnyddio rhyw lawer o derminoleg allweddol.

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn ymdrin ag MPA3.2 ag eglurder ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dangos y gallu i lunio casgliadau gwrthrychol, gan gynnwys tystiolaeth ategol. Dylai canolfannau gofio bod angen cyfeirio at amrywiaeth o ffynonellau a deunydd enghreifftiol, ac na ddylai ymgeiswyr ddibynnu'n llwyr ar friff yr aseiniad. Gwelwyd arfer da gan ymgeiswyr a oedd yn gallu dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth i lunio casgliadau gwrthrychol yn seiliedig ar ffeithiau. Dylai ymgeiswyr lunio casgliadau yn seiliedig ar reithfarnau diogel, dedfrydu cyfiawn a chamweinyddu cyfiawnder. Nid oedd ymatebion gwannach yn gallu gwneud mwy na disgrifio astudiaethau achos ac nid oeddent yn gallu dangos yn glir pam gellid ystyried bod achos, er enghraifft, yn gamweinyddiad cyfiawnder.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn darllen y canllawiau ar sut i gynnal, marcio a safoni'r sampl asesiad dan reolaeth a nodi na ddylai ymgeiswyr gael mynediad rhyngwyd na gweld gwerslyfrau o fewn amser yr asesiad dan reolaeth
- Dylid anfon yr holl waith papur gofynnol at y safonwyr yn brydlon a dylid ei drefnu'n briodol
- Dylid anodi gwaith ymgeiswyr yn glir drwyddo draw er mwyn cyfiawnhau'r marciau a roddir
- Dylai canolfannau ac ymgeiswyr weithio i sicrhau nad yw ymgeiswyr yn atgynhyrchu darnau o werslyfr yn uniongyrchol yn yr asesiad dan reolaeth. Ni ddylid rhoi marciau i'r math hwn o waith
- Dylid cyfeirio'n ofalus at adrannau cynnwys ac ymhelaethu'r fanyleb er mwyn penderfynu a yw ymgeiswyr wedi bodloni anghenion pob MPA unigol.

CBAC LEFEL 3 TROSEDDEG GYMHWYSOL

Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 4: TROSEDD A CHOSB

Sylwadau Cyffredinol

Fel yn uned 2, roedd y gydran hon a aseswyd yn allanol ar gyfer y cymhwyster diploma yn dangos parodrwydd llawer o ymgeiswyr a'u gallu i gyflawni ar lefel uchel. Er hynny, nid yw rhai ymgeiswyr yn ddigon cyfarwydd o hyd â'r holl amrywiaeth o ddeunyddiau a amlinellir yn y fanyleb. Mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd yn gallu cyflawni'r deilliannau dysgu ac ymdrin â'r meini prawf asesu tra'n rhoi sylw i'r cynnwys a amlinellir yn y fanyleb. Fodd bynnag, nodwyd unwaith eto bod rhai ymgeiswyr yn anghyfarwydd â chynnwys rhai cwestiynau. Unwaith eto, atgoffir canolfannau bod angen sicrhau bod ymgeiswyr yn gyfarwydd â phob agwedd ar y fanyleb—yn enwedig y golofn *cynnwys*, oherwydd bydd cwestiynau yn y papur arholiad yn adlewyrchu'r deunydd sydd wedi'i amlinellu yma. Roedd ymgeiswyr a oedd yn cyflawni'n uwch yn gallu defnyddio amrywiaeth o derminoleg arbenigol, ac yn defnyddio enghreifftiau perthnasol a phriodol, er enghraifft cyfeirio at achosion llys a defnyddio Deddfau Seneddol penodol i ategu eu hymatebion.

Yn olaf, ac i ailadrodd y pwynt a wnaethpwyd ar gyfer Uned 2, rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn defnyddio'r deunydd ffynhonnell sy'n ymddangos ym monyn y cwestiwn i roi arweiniad i'r ateb.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

- C.1** **(a)** **(i)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi'r ateb cywir i hwn ac i'r cwestiynau un marc sy'n ei ddilyn. Awgrymodd rhai ymgeiswyr mai'r barnwr oedd yn gyfrifol am y dyfarniad a, gan fod hynny'n bosibl yn dechnegol, cafodd yr atebion hyn un marc.
- (ii)** Er i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr nodi mai'r barnwr fyddai wedi rhoi'r ddedfryd o garchar, roedd ymatebion eraill yn cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gyfreithiwr y diffynnydd. Cynhyrchodd rhai ymgeiswyr restr o sawl asiantaeth, gan ddangos diffyg dealltwriaeth o'r system droseddol ac ni chafodd y rhain unrhyw farciau o gwbl.
- (b)** Cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr sgorau da am y cwestiwn hwn. Roeddent yn gallu rhoi esboniad cywir o'r model rheoli troseddau o gyfiawnder. Roedd yr ymatebion gwell yn cysylltu'r model hwn ag astudiaethau achos fel Colin Stagg, neu â meysydd cyfraith fel diddymu'r rheol erlyniad dwbl. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu i ymgeiswyr gwell arddangos terminoleg arbenigol a chael eu gwobrwyo'n briodol. Roedd yn ymddangos bod nifer bach o ymgeiswyr wedi drysu, gan ddisgrifio'r model trefn briodol o gyfiawnder a/neu ddim goddefgarwch.

- (c)** Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ar raglenni atgyfnerthu â thalebau gan ddarparu ymatebion clir a manwl a gyrhaeddodd y band marc uchaf. Ar gyfer y cwestiwn hwn roedd yn braf gweld yr ymatebion yn cael eu datblygu i garchardai gyda sôn am wobrau fel setiau teledu a mwy o amser allan o gelloedd. Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn caniatáu rhoi marciau am derminoleg arbenigol, fel atgyfnerthu negyddol a chadarnhaol. Ar brydiau, byddai ateb yn esbonio'n llawn sut roedd yr ochr wobrwyo'n gweithio ond yn esgeuluso'r agwedd atgyfnerthu negyddol. Methodd ambell un â chymhwyso'r dacteg ymddygiadol i garchardai, fel sy'n ofynnol gan y cwestiwn, ac roedd diffyg datblygiad gan rai ymgeiswyr o ran sut caiff ei defnyddio i sicrhau rheolaeth gymdeithasol mewn carchardai.
- (ch)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan gan ystyried dau nod dedfrydu. Ymhlith y nodau mwyaf poblogaidd a drafodwyd roedd dial ac adsefydlu, ac roedd eraill fel gwneud iawn ac analluogi/diogelu cymdeithas hefyd yn ymddangos. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y band marciau uchaf drwy ddatblygu'r nodau. Roedd angen cyfeirio at Sarah neu gysylltu â'r ddedfryd o dair blynedd yn y carchar. Ar adegau, doedd dim modd rhoi marciau llawn oherwydd diffyg datblygiad y nodau.
- (d)** Roedd y cwestiwn synoptig hwn yn heriol i rai ymgeiswyr, a oedd yn ei chael hi'n anodd cysylltu nodau dedfrydu â'r damcaniaethau troseddegol a astudiwyd yn uned 2. Roedd rhai ymatebion yn gallu esbonio nodau dedfrydu heb eu cysylltu â damcaniaeth, ac roedd eraill yn esbonio'r ddamcaniaeth heb lawer o gysylltiadau â nodau, neu ddim ond cysylltiadau ymhlyg. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn fanwl iawn ac yn haeddu marciau llawn. Roedd realaeth y chwith a'r dde, gyda'u cysylltiad ag adsefydlu a dial yn y drefn honno, yn ymddangos yn aml.
- C.2 (a)** Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion gwannach yn methu â dangos dealltwriaeth o rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan awgrymu mai nhw sy'n pennu'r ddedfryd mewn achosion llys. Byddai ymgeiswyr yn elwa o ymgysylltu mwy â'r fanyleb i werthfawrogi'r hyn mae'n ei ddweud am rôl y gwahanol asiantaethau. Ar adegau, roedd yr ymatebion wedi'u cyfyngu i'r prawf cod llawn ac yn methu â chynnwys agweddau eraill fel nodau ac amcanion, cyllid, athroniaeth, arferion gwaith, mathau o droseddoldeb, mathau o droseddwyr neu gyrhaeddiad (lleol neu genedlaethol).
- (b)** Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn codi llawer o faterion tebyg i'r rhai yn y cwestiwn am y CPS yn (a) uchod; roedd llawer o ymatebion yn cynnig sylwadau cyffredinol, synnwyr cyffredin yn unig am yr heddlu, heb arddangos tystiolaeth o astudio'r cwrs. Mae'r meysydd, o'r fanyleb, a amlinellir uchod, hefyd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn. Yn aml roedd yr ymatebion yn gul iawn, gan ganolbwyntio'n llwyr ar bwerau'r heddlu neu sut mae'r asiantaeth hon yn helpu i gadw'r gymuned yn ddiogel.
- (c)** Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn gan nad oedd rhai ymgeiswyr yn gallu ymgysylltu ag ef. Roedd y term rhesymau moesol wedi drysu nifer sylweddol o ymgeiswyr ac roeddent yn methu â gwerthfawrogi pam ei fod yn gyfyngiad o ran cyflawni rheolaeth gymdeithasol. Roedd nifer mawr o sgriptiau'n awgrymu nad oedd gan y rhai oedd â rhesymau moesol unrhyw reolaeth gymdeithasol fewnol na moesau ac felly nad oeddent yn sylweddoli eu bod yn cyflawni troseddau.

Roedd ymateb o'r fath yn methu â deall bod y rhai sy'n cyflawni troseddau oherwydd rhesymau moesol yn teimlo ei bod yn foesol gywir i wneud hynny, ac felly y byddent yn annhebygol o gael eu hailsefydlu. Roedd yr ymatebion gwell yn cynnwys enghreifftiau o droseddau fel hunanladdiad â chymorth, troseddau gwrthwynebu bywddyraniad a throseddau anrhydedd.

- (ch)** Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ymatebion gwannach i'r cwestiwn hwn fel rheol yn dilyn ymatebion gwan i ran (a) a (b). Ystyriwyd y ddwy asiantaeth fel arfer, ond ar adegau roedd y gwerthusiad yn rhy sylfaenol ac yn dilyn y ddadl bod y ddwy asiantaeth, wrth weithio gyda'i gilydd, yn fwy effeithiol yn awtomatig. Roedd yr ymatebion gwell yn datblygu gwerthusiad manwl gan gynnwys nifer o enghreifftiau fel achosion Stephen Lawrence, Hillsborough a Damilola Taylor. Roedd yn braf gweld ystadegau i ategu dadleuon ac enghreifftiau mwy modern, gan gynnwys y CPS yn dirwyn i ben achosion yn ymwneud â honiadau o dreisio o ganlyniad i fethiant i ddatgelu tystiolaeth.

- C.3 (a)** Er bod y gwasanaethau prawf a'u materion yn ymddangos yn rheolaidd yn y newyddion, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd ennill marciau llawn yn y cwestiwn hwn. Gwelwyd sôn yn rheolaidd am y ffaith eu bod yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth drwy drethi, ond nid oedd llawer o wybodaeth am breifateiddio rhannol y gwasanaethau prawf. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y deunydd ffynhonnell ym monyn y cwestiwn yn cynnwys y ffaith hon.

- (b)** Roedd disgwyl i'r ymatebion hyn ddefnyddio'r wybodaeth o'r deunydd ffynhonnell, fel y cyfarwyddwyd, a'i ddatblygu gyda gwybodaeth yr ymgeisydd ei hun i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth prawf o ran cyflawni rheolaeth gymdeithasol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd gan lawer o ymgeiswyr wybodaeth fanwl am rôl y Gwasanaeth Prawf ac felly nad oeddent yn gallu rhoi rhyw lawer o werthusiad. Roedd nifer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar y testun yn unig heb roi dim gwybodaeth ychwanegol. Yn yr un modd, roedd rhai atebion yn methu â chyfeirio at y wybodaeth yn y deunydd. Roedd yr ymatebion gwannach yn canolbwyntio'n llwyr ar y syniad o ddiwygio a'r agwedd adsefydlu ar y gwasanaethau, ac felly'n dod i'r casgliad bod cyfraniad y gwasanaethau at reolaeth gymdeithasol yn gadarnhaol yn unig.

Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys gwybodaeth am rôl y gwasanaeth pan gaiff carcharorion eu rhyddhau o'r carchar ond nid oedd yn ymddangos eu bod yn gwerthfawrogi ei rôl pan roddir gorchymyn prawf fel penderfyniad llys. Roedd yr ymatebion cryfach yn trafod beirniadaethau diweddar o breifateiddio'r sefydliad yn rhannol gyda Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn goruchwyllo troseddau sy'n peri risg canolog i isel. Ategwyd y rhain gan enghreifftiau fel David Braddon yn lladd Connor Marshall neu Marvyn Iheanacho yn llofruddio'r bachgen 5 oed Alex Malcom, a chawsant eu gwobrwyo'n fawr.

- (c)** Y cyfan oedd ei angen gan y cwestiwn hwn oedd ateb cymharol syml o ddau o nodau cosb. Roedd yn ymddangos mai'r mwyaf poblogaidd oedd adsefydlu, dial a gwneud iawn. Er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi nodau gorchymyn prawf, roedd ymatebion eraill yn canolbwyntio, yn anghywir, ar y mathau o gosbau a oedd ynghlwm wrth orchymyn cymunedol fel tag electronig neu ad-daliad cymunedol.

- (ch) Roedd ymgeiswyr nad oeddent yn gwybod sut mae gorchymyn prawf yn gweithio, na beth yw ei swyddogaeth, yn amlwg yn ei chael yn anodd ateb y cwestiwn hwn. Roedd disgwyl iddynt gyfeirio at sut roedd gorchymyn prawf yn gweithio i gynhyrchu rheolaeth gymdeithasol allanol. Roedd hyn yn cynnwys y syniad bod telerau gorchymyn fel ad-dalu cymunedol yn gorfodi'r troseddwr i ymddwyn. Byddai'r carchar yn ddewis arall yn lle gorchymyn prawf llys, a byddai ofn cosb o'r fath yn arwain at reolaeth gymdeithasol. Roedd y bygythiad parhaus o gaethiwed yn rhoi'r ataliad dymunol rhag aildroseddu.
- (e) Roedd y cwestiwn hwn yn herio rhai ymgeiswyr a oedd ond yn ysgrifennu am rôl asiantaethau yn y system cyfiawnder troseddol o safbwynt annibynnol ac felly'n methu â gwneud y cysylltiadau rhyngddynt. Un dull a ddisgwyliwyd oedd cymryd pob asiantaeth ac yna ystyried sut mae'n gweithio gyda'r gwasanaeth prawf. Un gamdybiaeth gyffredin yw bod yr heddlu'n hebrwng carcharorion i'r carchar ac oddi yno. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gontractio allan i gwmnïau fel Serco neu GEOAmei. Byddai canolfannau'n elwa o ganolbwyntio mwy ar y meini prawf asesu hyn er mwyn galluogi ymgeiswyr i gael darlun ehangach o ddull gweithredu amlasiantaeth. Dylai canolfannau ystyried rôl y MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd), lle mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaethau carchardai yn cydweithio ag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau sy'n dod yn sgil y ffaith bod troseddwr treisgar a throseddwr rhyw yn byw yn y gymuned er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Rhaid i ganolfannau sicrhau ymdriniaeth â phob agwedd ar y fanyleb cynnwys
- Anogir ymgeiswyr i ymarfer cwestiynau gwerthuso ac asesu
- Anogir ymgeiswyr i feddu ar wybodaeth ffeithiol benodol a chadarn, fel achosion llys a deddfwriaeth, i gefnogi eu dadleuon
- Anogir ymgeiswyr i ddefnyddio'r deunydd ffynhonnell ym monyn y cwestiwn yn well. Roedd methu â gwneud hynny yn aml yn golygu bod canllawiau'n cael eu hanwybyddu a bod deunydd perthnasol yn cael ei hepgor.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk